trobwynt
Rhannu'r ffydd Gristnogol gyda'n hieuenctid
Cylchlythyr
Rhifyn 6
Rhagfyr 2008

A dych chi'n gwybod mor hael oedd yr Arglwydd Iesu Grist ei hun. Er ei fod e'n gyfoethog yng ngwir ystyr y gair, gwnaeth ei hun yn dlawd er eich mwyn chi! – a hynny er mwyn i chi ddod yn gyfoethog yn eich perthynas â Duw!
2 Corinthiaid 8:9

Souled Out am y Ffydd.

Rydym wedi dechrau digwyddiad sydd yn gysylltiedig â 'Souled Out' yng Ngholeg y Bala. Byddwn yn ceisio cynnal y digwyddiad bob deufis. Cynhaliwyd y digwyddiad cyntaf yn ystod hanner tymor misHydref ar y thema '*Souled Out am y Ffydd*'. Bu Rachel yn sgwrsio am Pedr yn cerdded ar y dŵr a bu'r grŵp ieuenctid o Goleudy Cricieth yn arwain yr addoliad cerddorol. Rydym yn gobeithio cynnal digwyddiad arall ym mis Ionawr.

souledOUT Cymru
souledoutcymru.net

Gwersi yn Ysgol Eifionydd a Glan y Môr

Cawsom wythnos brysur yn cynnal gwersi ar thema'r Nadolig gyda disgyblion Blwyddyn 7 Ysgol Eifionydd a Glan y Môr, ac yn trafod Ewthanasia gyda Blwyddyn 10. Bu'n gyfle gwych i rannu'r safbwynt Gristnogol ar y materion hyn.

Penwythnos i'r plant yng Ngholeg y Bala

Hefyd, cawsom benwythnos gwych gyda Nia Williams yng Ngholeg y Bala, a mynychodd oddeutu 30 o blant y penwythnos; plant o ardal Llŷn ac Eifionydd yn bennaf. Bu Nia yn adrodd stori Josua trwy gydol y penwythnos.

Cwrs 'Offensive'

Cawsom benwythnos gwych gyda'r Cwrs *Offensive* yn Neuadd Clwb Gwyliau Cricieth.

Daeth Dai Hankey o Ignite yng Nghaerdydd i siarad â ni. Bu Andy Hughes yn arwain yr addoliad cerddorol ar y nos Wener. Tra bu'r '*Offensive Band*' o Gaerdydd yn arwain yr addoliad cerddorol trwy gydol y dydd Sadwrn. Sgyrsiodd Dai yn angerddol am genhadaeth y Groes. Mynychodd oddeutu 30 o ieuenctid y penwythnos.
Rydym yn mawr obeithio iddynt adael y pen-wythnos ag

Beth am ddod i

GYFARFOD GWEDDI TROBWYNT

Ionawr 9
2.00
Tabor
Llithfaen

Hoffech chi gefnogi trobwynt ?

Cysylltwch â'r Ysgrifennydd
Tabor
Llithfaen
Pwllheli
LL53 6NL Rhif Ffôn: 01758 750202